**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-585
Ein cyf/Our ref EH/05284/14

William Powell AC

deisebau@cymru.gov.uk

10 Hydref 2014

Annwyl William,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 30 Medi ynghylch deiseb P-04-585 Newidiadau i gyffordd yr A494/A470 yn Nolgellau.

Rwy'n ymwybodol fod pobl leol yn pryderu ynghylch diogelwch cyffordd yr A470/A494 yn Nolgellau. Rwy'n cymryd materion diogelwch ffyrdd o ddifrif ac rydym yn cydweithio'n agos â'r heddlu wrth iddynt ymchwilio i ddamweiniau diweddar.

Fel mesur brys, mae goleuadau traffig dros dro wedi cael eu gosod i reoli cyffordd yr A470/A494 yn y tymor byr. Bydd CCTV hefyd yn cael ei osod dros dro yn y gyffordd hon ac yng nghyffordd yr A470/A493, er mwyn ein helpu i ddadansoddi ymddygiad gyrwyr. Dylid nodi hefyd nad yw'r heddlu wedi gorffen ymchwilio i achos y damweiniau. Unwaith bydd y gwaith hwn ar ben, bydd fy swyddogion yn penderfynu pa gamau fydd angen eu cymryd yn y tymor canolig a'r hirdymor er mwyn cynnal diogelwch y gyffordd hon.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*